



Nodiadau o Ddiwrnod Partneriaeth y Canmlwyddiant Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 ac Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth

Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd
26 Ionawr 2017

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol fynd i grwpiau a thrafod y cwestiynau a ganlyn:

Sesiwn 1: Gwersi a ddysgwyd a rhannu syniadau

- a) Beth ydym ni wedi'i ddysgu o weithgareddau canmlwyddiant 2014-2016 y gallwn ni ei roi ar waith yn 2017-2018?
 - Sut ydych chi wedi monitro / gwerthuso eich prosiect?
 - A allwch chi rannu unrhyw enghreifftiau o adborth gan y gynulleidfa?
 - Sut allwn ni helpu ein gilydd?

- b) Sut y mae'r gweithgareddau i gofio'r canmlwyddiant wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda:
 - chasgliadau?
 - cynulleidfaoedd?
 - sefydliadau eraill?
 - partneriaid?

Sesiwn 2: Cynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod y cofio

- a) Beth yw eich cynlluniau / syniadau ar gyfer Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2017? A fyddwch chi'n nodi unrhyw ddyddiadau neu ddigwyddiadau allweddol? Pa gynulleidfaoedd fydddech chi'n hoffi eu targedu yn 2017?

- b) Beth yw eich pum prif nod ac amcan ar gyfer gweddill y canmlwyddiant a pha rwystrau allai eich atal rhag eu cyflawni?

Sesiwn 1: Gwersi a ddysgwyd a rhannu syniadau

- a) **Beth ydym ni wedi'i ddysgu o weithgareddau canmlwyddiant 2014-2016 y gallwn ni ei roi ar waith yn 2017-2018?**
- **Sut ydych chi wedi monitro / gwerthuso eich prosiect?**
 - **A allwch chi rannu unrhyw enghreifftiau o adborth gan y gynulleidfa?**
 - **Sut allwn ni helpu ein gilydd?**

Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

- Weithiau, mae prosiectau wedi tyfu i fod yn llawer mwy na'r disgwyl, gyda'r cyhoedd yn awyddus i gymryd rhan ac i rannu eu hanesion personol. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r cyhoeddusurwydd a roddwyd i gyfnod y canmlwyddiant a diddordeb y cyhoedd mewn digwyddiadau coffa cenedlaethol, a dylem barhau i geisio cynnal y momentwm hwn yn 2017-18.
- Mae 2014-16 wedi dangos bod gan y cyhoedd ddiddordeb mawr yn y rhyfel, yn enwedig mewn olrhain hanesion teuluol a darganfod cysylltiadau personol.
- Mae llawer o straeon sydd wedi mynd yn angof i'w hadrodd o hyd, gan gynnwys:
 - Profiadau ac effaith y rhyfel ar y môr, fel colli llongau tanfor a systemau confoi, prinder bwyd a diffyg maeth.
- Mae angen cymorth ar gyfer ceisiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri o hyd, yn enwedig yn y Gymraeg.
- Mae'n bwysig cynnwys gwirfoddolwyr mewn prosiectau ac ystyried yn ofalus sut i drefnu, recriwtio a chadw unigolion; fodd bynnag, gall fod yn anodd pennu a yw gwirfoddolwyr yn cymryd rhan oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn nigwyddiadau cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf neu oherwydd bod ganddynt ddiddordeb mewn cefnogi'r gweithgareddau'n fwy cyffredinol. Byddai'n ddefnyddiol gwerthuso a gwahaniaethu lefelau'r ymrwymiad.
- Mae llawer yn dal i'w chael yn anodd gwerthuso prosiectau, yn enwedig o ran cael cynulleidfaoedd ac ymwelwyr i lenwi ffurflenni gwerthuso.
- Mae'r digwyddiadau i gofio'r canmlwyddiant wedi parhau i ganolbwyntio ar Ffrynt y Gorllewin hyd yma; mae angen inni ystyried profiadau ar ffryntiau eraill. Yn 2017, bydd yn bwysig canolbwyntio ar y rhyfel yn y Dwyrain Canol, gan roi sylw i ymgyrch Palestina, brwydrau Gaza ac ati, ac ystyried eu harwyddocâd yng nghyd-destun y gwrthdaro sy'n digwydd heddiw.
- Mae angen inni barhau i adrodd straeon tu hwnt i'r rhyfela a'r 'brwydrau mawr', gan roi sylw i faterion fel newidiadau demograffig, yr effaith ar y gymdeithas ac ar gymunedau lleol, streic yr heddlu yn 1919 a rôl swyddogion heddlu benywaidd.
- Mae angen inni ystyried y darlun mawr: adrodd straeon yr holl rai a fu'n gwasanaethu a'r dynion a ddychwelodd o'r rhyfel, ond mae angen gwneud ymchwil er mwyn adrodd y straeon hyn gan fod gwybodaeth am yr unigolion hyn ac effaith y rhyfel ar weddill eu bywydau'n brin.
- Rhaid i'r gweithgarwch barhau ar ôl 2019.
- Dylem ystyried rhoi sylw i ddechrau'r rhyfel yn 1914 a'r hyn a arweiniodd at y rhyfel, gan fod hyn wedi'i esgeuluso i ryw raddau hyd yma.

Ydych chi wedi monitro'ch prosiect?

- I werthuso prosiectau, defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys:
 - SurveyMonkey
 - Twitter Analytics

- Sgyrsiau anffurfiol – astudiaethau achos defnyddiol
- Gofyn am farn y bobl
- Ffurflenni gwerthuso
- Cardiau post
- Dyma rai o'r heriau sydd wedi codi:
 - Nid yw rhai digwyddiadau'n darparu amgylchedd addas i wneud gwaith gwerthuso e.e. sioeau teithiol cymunedol
 - Gan fod y cynulleidfaoedd yn amrywiol, gall fod yn anodd defnyddio un dull penodol neu werthuso gan ddefnyddio dulliau traddodiadol
 - Mae sefydliadau bach yn ei chael yn anodd casglu data drwy gydol prosiect
 - Gall gofyn am farn pobl godi braw ar gynulleidfaoedd

Sut allwn ni helpu ein gilydd?

- Rhaid inni barhau i rannu ymchwil newydd a helpu i rannu straeon.

b) Sut y mae'r gweithgareddau i gofio'r canmlwyddiant wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda:

- chasgliadau?
- cynulleidfaoedd?
- sefydliadau eraill?
- partneriaid?

Mae gweithgareddau i nodi'r canmlwyddiant wedi sbarduno ymchwil newydd mewn llawer o sefydliadau, gan roi ffocws ar gyfer gweithgareddau, yn ogystal â chreu cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol mewn ffordd newydd a chyffrous.

Casgliadau

Ysbrydoli ymchwil newydd ar sail casgliadau

- Mae gweithgareddau i nodi'r canmlwyddiant wedi ysbrydoli ymchwil newydd ar sail casgliadau ac wedi arwain at ddarganfod straeon na chawsant eu hadrodd o'r blaen.
- Mae cyfnod y canmlwyddiant wedi codi proffil archifdai ac adnoddau lleol, gan gyfrannu at ddarganfyddiadau annisgwyl:
 - e.e. Amgueddfa Dyffryn Maes Glas – gwnaed ymchwil i ddiwydiant yr ardal sydd wedi datgelu newid demograffig wrth i fenywod ysgwyddo swyddi dynion.
 - e.e. Heddlu De Cymru – mae gan yr amgueddfa ym Mhencadlys yr Heddlu rai eitemau sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac Ypres ac Amiens yn benodol – mae'r straeon newydd hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn o brofiadau pobl yn ystod y rhyfel.
 - e.e. Archif Menywod Cymru – darganfod straeon y menywod sydd wedi'u rhestru ar gofebau rhyfel.
- Mae'r gweithgareddau cofio wedi ein hannog i ddefnyddio casgliadau mewn ffordd newydd a gwahanol, ac i gyfrannu at brosiectau â chylch gwaith ehangach, e.e. nid oes llawer o eitemau o'r Rhyfel Byd Cyntaf yng nghasgliad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ond drwy rannu ffotograffau o safleoedd pwysig yn eang, mae wedi ysbrydoli'r cyhoeddiad newydd, 'Gofalu am Gofebau Rhyfel yng Nghymru'.

Defnyddio technoleg ddigidol i rannu adnoddau ac i adeiladu casgliadau

- Mae'r gweithgareddau cofio wedi hybu defnydd eang o dechnolegau digidol i rannu deunydd sy'n bodoli eisoes yn ehangach:
 - e.e. Casgliad y Werin – archif weledol, ddigidol bwysig iawn
 - e.e. Papurau Newydd Cymru Ar-lein
 - e.e. Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf – rhyddhawyd adnoddau o gasgliadau Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth drwy safle allrwyd members.1914.org
- Mae'r gwaith o ddatblygu archifau digidol wedi dangos bod swm enfawr o ddeunydd ar gael, ond yr hyn sy'n her yw sicrhau ei fod yn hygyrch a bod pobl yn gwybod ei fod yn bodoli.
- Twf cyfrannu torfol cymunedol i ychwanegu cynnwys at gasgliadau sy'n bodoli eisoes.

Gweithio mewn ffyrdd newydd i adrodd straeon lle mae bylchau yn y casgliadau

- Mae ymchwil ar sail casgliadau a wnaed yn ystod cyfnod y canmlwyddiant wedi arwain at ddarganfod gwybodaeth newydd am y rheini a fu farw, ond mae'r ffocws hwn wedi datgelu bylchau yn ein casgliadau o ran straeon y rheini a oroesodd, y rheini a fu'n gwasanaethu, a'r rheini a ddiodeffodd brofiadau gwahanol yn ystod y rhyfel.
- Mae'r gweithgareddau cofio cyfredol wedi sbarduno'r angen i newid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r casgliadau a'r straeon sydd gennym eisoes ac i ddechrau edrych ar y darlun mawr o ran yr holl bobl a oedd yn rhan o'r rhyfel.
- Mae'r gweithgareddau cofio wedi trawsnewid y ffordd y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n defnyddio rhai o'i chasgliadau. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio ei chasgliadau ei hun a chasgliadau Amgueddfa Cymru i greu deunydd dysgu ar gyfer gwefan Hwb. Bydd y deunydd hwn yn ategu cynlluniau addysg a'r cwricwlwm. Cafodd llawer o gasgliadau newydd eu creu, er enghraifft casgliad Cymru 1914 a'r casgliad Cofebion Rhyfel.
- Mae casgliadau fel Cymru 1914 yn rhoi cyfle i bobl edrych ar rai o'r adnoddau gorau o'r cyfnod, fel adroddiadau a ysgrifennwyd yn ystod y Rhyfel. Mae'r wefan yn fan cychwyn pwysig ar gyfer prosiectau eraill.
- Cafodd gwefannau newydd eu creu, fel gwefan am hanes menywod yn ystod y Rhyfel. Cafodd ei chreu gan Archif Menywod Cymru ar y cyd ag Archifdy Morgannwg, gyda chyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, gan ddefnyddio casgliadau Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth. Cafodd gwefan Cymru yn y Rhyfel ei chreu hefyd, ac mae'n adnodd pwysig i blant ysgol ac eraill.
- Mae Archifdy Morgannwg wedi edrych ar ei gasgliadau mewn ffordd wahanol, gan ganolbwyntio ar thema'r Rhyfel a rhoi cyhoeddusrwydd i'w gasgliadau drwy flogiau.
- Mae Prifysgol Abertawe'n gweithio ar brosiect o'r enw 'Cofebau Cymreig i'r Rhyfel Mawr' a noddir gan 'Living Legacies 1914-1918 Engagement Centre'. Mae'r prosiect yn ymchwilio i'r ystod eang o gofebau rhyfel 'answyddogol' yng Nghymru, gan greu cronfa ddata i rannu'r wybodaeth.
- Nodwyd bod gwefan Cymru'n Cofio yn adnodd defnyddiol lle gellir cael hyd i ddeunydd o amryw o ffynonellau mewn un man, a bod hyn yn hollbwysig i waddol cyfnod y cofio.

Cynulleidfaoedd

Darparu cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd

- Mae hyn yn dal i fod yn her, ond cafwyd rhai datblygiadau calonogol yn ystod cyfnod y canmlwyddiant hyd yma, gyda phrosiectau fel y rhai a ganlyn yn ymgysylltu'n llwyddiannus:
 - Prosiect 'Yn Fyw yn y Cof' Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad a roddodd gyfle i bobl ifanc wneud gwaith ymchwil ac ysgwyddo perchnogaeth dros straeon.
 - Bydd cofeb rhyfel newydd Cyngor Cymuned Langstone yn cynnwys capsawl amser a grëwyd gan ysgol gynradd leol i'w agor ymhen can mlynedd.
- Mae sefydliadau wedi dysgu bod rhaid sicrhau bod prosiectau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn berthnasol i genedlaethau iau drwy gysylltu'r gorffennol â diddordebau cyfoes.
- Mae'n dal i fod yn anodd ymgysylltu ag ysgolion oherwydd cyfyngiadau'r cwricwlwm o ran astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf, gyda llawer yn canolbwyntio mwy ar gyfnod yr Ail Ryfel Byd. I fod yn atyniadol, rhaid i brosiectau fod yn berthnasol i'r cwricwlwm a darparu cyfleoedd i feithrin sgiliau.

Trin a thrafod straeon na chawsant eu hadrodd i ymgysylltu'n ehangach ac i gyrraedd grwpiau 'anodd eu cyrraedd'

- Yn ystod cyfnod y cofio hyd yma, aethpwyd ati i ystyried syniadau newydd a phrosiectau newydd sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o brofiadau ar adeg y rhyfel, yn ogystal â rôl pobl o wahanol genhedloedd, ethnigrwydd a chymunedau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Mae cyfnod y canmlwyddiant wedi darparu cyfleoedd i gyrraedd grwpiau a oedd yn anodd eu cyrraedd yn flaenorol, gan ddechrau sgwrs newydd a'n hannog i ystyried cynulleidfaoedd a grwpiau cymdeithasol eraill nad ydym wedi cydweithio â nhw o'r blaen, yn ogystal â meddwl yn fwy creadigol am y ffordd y gall ein prosiectau ddiwallu eu hanghenion nhw.
 - e.e. Archif Menywod Cymru – drwy brosiect 'Yn Fyw yn y Cof' Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, mae wedi llwyddo i gael mynediad effeithiol i rwydweithiau newydd, gan gynnwys Sefydliad y Merched.

Manteisio ar ddiddordeb y cyhoedd

- Yr her fydd sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i ymgysylltu ar ôl 2018 pan na fydd y ffocws ar gofio a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn dal i fod ym meddyliau'r cyhoedd. Un ymateb yw prosiect 'Rethink Remembrance' y Lleng Brydeinig Frenhinol sy'n cysylltu cofio â gwrthdaro cyfoes i sicrhau bod yr arfer o gofio'n dal i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd heddiw.
- Bu'n bwysig cysylltu'r 'adeg honno' â'r 'adeg hon' i gael hyd i gynnwys sy'n sicrhau bod y gweithgareddau cofio'n berthnasol, e.e. STEM, Chwaraeon yn Cofio.

Mae cynulleidfa'r Llyfrgell Genedlaethol yn cynnwys ysgolion ac athrawon, yn ogystal â'r cyhoedd.

Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gynulleidfa eang hefyd, gan gynnwys ysgolion a grwpiau hanes – felly, mae'n cynnwys pobl o bob oed a chefnidir.

Cafwyd cryn ddiddordeb yng ngwefan Archif Menywod Cymru.

Bwriedir rhannu cronfa ddata Cofebau Cymreig i'r Rhyfel Mawr mor eang â phosibl, gan ganolbwyntio ar lawer mwy na dim ond Ffrynt y Gorllewin. Er enghraifft, bydd yr wybodaeth ar gael drwy wefan Cymru yn y Rhyfel er mwyn denu pobl ifanc i ddysgu mwy am y Rhyfel.

Sefydliadau eraill

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n un o'r partneriaid niferus sydd wedi cydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddarparu pob math o weithgareddau.

Ymhlith y sefydliadau a'r partneriaid sy'n cydweithio â Phrifysgol Abertawe ar y prosiect Cofebau Cymreig i'r Rhyfel Mawr mae Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth ac Yn Fyw yn y Cof.

Ymhlith y sefydliadau allweddol eraill mae Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Partneriaethau

- Mae'r partneriaethau a gafodd eu meithrin yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn gadarn ac yn llwyddiannus, gyda llawer yn cael eu ffurfio'n benodol yn sgil cyfnod y canmlwyddiant.
- Mae'r prosiectau wedi gweld cynnydd o ran gwaith cymunedol.
- Cafodd cysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli eu hatgyfnerthu drwy 'partneriaethau anffurfiol'.
- Mae sefydliadau wedi elwa o weithio mewn partneriaethau sy'n dod ag arbenigeddau gwahanol ynghyd i roi prosiectau ar waith.
- Mae Archifdy Morgannwg wedi cydweithio â nifer o gyrff, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar brosiect David Davies Llandinam, a Cymru Dros Heddwch ar Lyfr Cofio Cymru.
- Tanlinellwyd pwysigrwydd cefnogaeth ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae wedi chwarae rôl bwysig i hwyluso llawer o brosiectau eraill â ffocws eang.
- Nodwyd bod y cofio wedi dod â phartneriaid ynghyd na fyddent fel rheol wedi cydweithio'n agos â'i gilydd, er enghraifft yr Eglwys a'r Fyddin.
- Mae cymunedau wedi cydweithio ag amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ac ati, ac mae hyn wedi eu galluogi i drefnu prosiectau.
- Mae'r cofio wedi creu cyfleoedd i wirfoddoli ac i feithrin sgiliau newydd.
- Tybir bod y cofio'n cael ei arwain gan y gymuned.

Sesiwn 2: Cynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod y cofio

a) Beth yw eich cynlluniau / syniadau ar gyfer Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2017? A fyddwch chi'n nodi unrhyw ddyddiadau neu ddigwyddiadau allweddol? Pa gynulleidfa oedd fydddech chi'n hoffi eu targedu yn 2017

Cynlluniau a syniadau ar gyfer 2017

- Cofebion Rhyfel Powys:
 - dangos ffilm The Battle of the Somme
 - ymchwilio i'r enwau ar gofebau
 - atgyweirio a gwarchod
- Bydd Castell Powys yn ail-greu profiadau o'r triwlynsoedd a gynhaliwyd yn y castell gan ddefnyddio dyddiaduron y staff.
- Bydd Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin yn arwain teithiau ym mynwent Casnewydd ac yn ymchwilio i hanesion lleol o'r Rhyfel Byd Cyntaf.
- Cymdeithas Hanes Llansteffan: ffenestr gwydr lliw newydd i goffáu ffoaduriaid Gwlad Belg.

- Cyngor Cymuned Langstone: cofeb rhyfel newydd ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd gyda cherrig gwag ar gyfer milwyr sy'n rhan o wrthdaro cyfoes. Bydd hefyd yn cynnwys capsawl amser a grëwyd gan ysgol gynradd leol i'w agor ymhen can mlynedd.
- Prosiect 'Views of an Antique Land': bydd yn dod i ben, ac mae'r wefan yn fyw erbyn hyn.
- Heddlu De Cymru: llyfryn 2017 wedi'i gyhoeddi.
- Amgueddfa Dyffryn Maes Glas: gweithwyr ffatri yn y Fflint, newid demograffig, ystyried bywydau'r rheini a arhosodd ym Maes Glas a'u rôl nhw.
- Bydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru'n ystyried stori'r llongau tanfor a'r colledion ar y môr, yn enwedig dwy long a gollwyd yn nyfroedd Cymru. Bwriedir cynnal sioe deithiol dros yr haf i gasglu straeon personol ar gyfer Casgliad y Werin.
- Y Ffiwsilwyr Brenhinol: wrth i Drydedd Frwydr Ypres ddod i ben, dechreuodd Trydedd Frwydr Gaza. Bwriedir cynnal arddangosfa deithiol gydag Amgueddfa Wrecsam – 'Y Ffordd i Damascus'.
- Gŵyl Gofio Flynyddol Cymru – gallai fod yn seiliedig ar thema Passchendaele
- Talacharn: bydd yn cynnal dwy arddangosfa ac yn paratoi cyhoeddiad newydd, a bydd adnoddau ar gael i ysgolion eu benthyg.
- Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin, Cangen Gwent: mae'n cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd ym mis Tachwedd 2018 a fydd yn cynnwys y gymuned leol, ysgolion a'r cyhoedd.
- Mae Prosiect Sero wedi cael cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i roi prosiect ar waith, o dan arweiniad gwirfoddolwyr lleol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad a rôl yr awyrlong dros Gymru.

Dyddiadau a digwyddiadau allweddol

A fyddwch chi'n rhoi sylw i unrhyw ddyddiadau neu ddigwyddiadau allweddol?

- Byddin Dir y Menywod – Ionawr 1917
- America'n ymuno â'r rhyfel
- Marwolaeth Hedd Wyn
- Brwydrau'r llongau tanfor
- Brwydr Vimy Ridge sy'n cynnwys ymfudwyr o Gymru i Ganada / Gogledd America
- Tribiwnlysoedd tir
- Defnyddio awyrlongau
- Brwydr Messines
- Palestina, Gaza, Jerwsalem a'r Dwyrain Canol – 1-2 Tachwedd, gan gynnwys colli llawer o Gymry o 53fed Adran (Cymru)
- Catrawdau Cymru yn Arras, Cambrai
- Trydedd Frwydr Ypres – Passchendaele, gan gynnwys marwolaeth Hedd Wyn (31 Gorffennaf)
- Ffrwydrad mewn ffatri arfau milwrol ym Mhen-bre, Sir Gaerfyrddin, lle lladdwyd chwech o bobl, gan gynnwys dwy ferch yn eu harddegau

Y prif ystyriaethau o ran nodi'r dyddiadau a'r digwyddiadau allweddol

- Sicrhau bod y gweithgaredd yn gynrychioliadol, gan gwmpasu pawb a oedd yn rhan o'r digwyddiad a phob safbwynt
- Nodi dyddiadau sydd o bwys i grwpiau cymunedol lleol, yn ogystal â digwyddiadau cofio cenedlaethol
- Mynd ati i adrodd hanes profiadau ehangach ar adeg y rhyfel yn hytrach nag adrodd straeon unigol am y prif frwydrau yn unig

Pa gynulleidfaoedd fydddech chi'n hoffi eu targedu yn 2017?

- Pobl ifanc – ymhlith yr awgrymiadau roedd Cadetiaid Awyr a Môr, clybiau ieuencid ac ysgolion
 - Cynulleidfaoedd digidol – manteision cyrraedd cynulleidfa eang ac annog pobl i ymgysylltu ar draws y cenedlaethau
 - Cymunedau lleol – trin a thrafod treftadaeth a rennir a chysylltiadau annisgwyl
 - Anelu at gyrraedd grwpiau 'anodd eu cyrraedd'
 - Teuluoedd
 - Cynulleidfaoedd dwyieithog
-
- Mae Cymru dros Heddwch yn cynnal trafodaethau â'r ffotograffydd Lee Stow ynghylch arddangos ei luniau sy'n cofnodi hanes y menywod a fu'n rhan o fudiadau heddwch yng Nghymru ers y Rhyfel Byd Cyntaf.

Un o brif weithgareddau cofio'r Llyfrgell Genedlaethol yn 2017 fydd arddangosfa 'Diffodd yr Awen: Hedd Wyn ac Edward Thomas' a gynhelir rhwng 18 Chwefror a 2 Medi. Mae'r Llyfrgell wedi paratoi'r arddangosfa hon ar y cyd â'r Ysgwrn ac ysgolion. Mae'r Llyfrgell hefyd yn rhoi prosiect ar waith i danysgrifio dogfennau tribiwnlysoedd (apeliadau) Sir Aberteifi, sef apeliadau yn erbyn gorfodaeth filwrol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd modd i bobl o bob oed, yn enwedig pobl ifanc, ddefnyddio'r deunydd hwn drwy wefannau Hwb a Cymru 1914, a bydd pecynnau addysg ar gael o'r deunydd digidol. Mae'r Llyfrgell yn llunio rhaglen addysg am Hedd Wyn, a bydd copi o'i awdl ar gael ar stondin y Llyfrgell yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mai 2017.

- Mae Casgliad y Werin yn dal i gyhoeddi ac i ailgyhoeddi adnoddau digidol, yn ogystal â chreu casgliadau i'w gwneud yn haws eu chwilio a'u defnyddio at ddibenion ymchwil mewn addysg. Mae hefyd yn gweithio ar brosiectau penodol, er enghraifft, gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Ysgwrn. Mae'n annog pobl i greu eu casgliadau eu hunain ar y wefan.

Wrth reswm, ailagor yr Ysgwrn fydd prif ffocws gweithgareddau cofio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eleni. Yn ogystal ag ailagor yr Ysgwrn (bydd yn ailagor i'r cyhoedd yn y gwanwyn), mae'r Parc yn cydweithio â chymuned Trawsfynydd ar Wyl y Lleud Borffor, sef wythnos o weithgareddau a gynhelir yn Nhrawsfynydd ym mis Medi i nodi can mlynedd ers i Hedd Wyn, un o'i feibion enwocaf, ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Parc hefyd yn cydweithio â Chyfeillion Parc Penbedw ar Wyl y Gadair Ddu a gynhelir ym Mhenbedw ym mis Medi. Bydd yn cynnwys llawer o weithgareddau, fel dadorchuddio cofeb i Hedd Wyn. Mae'r Ysgwrn a'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn cydweithio ar ddigwyddiadau a gynhelir ym mis Medi mewn ysgolion ar hyd llwybr y Gadair Ddu wreiddiol rhwng Penbedw a Thrawsfynydd gyda chwmni theatr 'Mewn Cymeriad'.

- Mae Cymdeithas Hanes Lleol Prydain yn cydweithio â Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 ac Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth i hyrwyddo'r gweithgareddau a gynhelir yn ystod cyfnod y cofio drwy gyhoeddiadau ar-lein. Mae'n adolygu'r cyhoeddiadau i bennu patrymau o ran yr hyn sy'n cael ei gofio. Nodwyd bod angen delweddau nad ydynt yn destun deddfau hawlfraint i'w defnyddio mewn adnoddau sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf.

b) Beth yw eich nodau a'ch amcanion ar gyfer gweddill y canmlwyddiant a pha rwystrau allai eich atal rhag eu cyflawni?

Nodau	Heriau
Ymgysylltu ag ysgolion	Galluogi cenedlaethau iau i ddeall effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol iddynt wrth i nifer y rhai sy'n cofio'r rhyfel leihau
Annog cymunedau lleol i gymryd rhan	Bod yn gynrychioliadol o ran yr hanesion yr ydym yn eu hadrodd
Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd	Denu pobl nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu
Digido adnoddau i sicrhau bod modd eu rhannu'n eang e.e. defnyddio Casgliad y Werin i ychwanegu mwy o eitemau at y casgliad cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gynulleidfaoedd am yr adnoddau a gynhyrchwyd ac sydd ar gael mewn casgliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Sicrhau ein bod yn gwybod am dechnolegau digidol newydd a sicrhau bod ein staff a'n gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'w defnyddio. Sicrhau bod staff Casgliad y Werin yn parhau i ddarparu cymorth a hyfforddiant i alluogi cynifer o grwpiau â phosibl i gyfrannu.
Sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i ymgysylltu â phrosiectau	Cael hyd i gynnwys newydd ac ystyried deunydd o safbwyntiau newydd, a sicrhau nad yw grwpiau cymunedol yn teimlo eu bod wedi trin a thrafod pob stori leol
Parhau i archwilio ffyrdd newydd o weithio	Bod yn hyblyg ac yn ddynamig, ac ymateb i ddiddordebau'r cyhoedd
Creu partneriaethau newydd	Cydnabod ein gwendidau sefydliadol a defnyddio partneriaethau newydd i ategu ein rhaglenni
Adrodd straeon am yr holl bobl a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel; nid dim ond y dynion a fu farw, ond y rheini a orosodd a'u teuluoedd hefyd	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni'r ymchwiliad angenrheidiol i adrodd y straeon hyn Llenwi'r bylchau yn ein casgliadau
Dechrau cynllunio ar gyfer 2018 a sicrhau bod gan gyfnod cofio 2014-18 waddol priodol	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd hyd yma i lywio cynlluniau'r dyfodol Dod â phrosiectau i derfyn priodol Sicrhau ein bod yn cofnodi gweithgareddau'n briodol Penderfynu sut y bydd gweithgareddau 2014-18 yn cael eu cofnodi a beth fydd y gwaddol: <ul style="list-style-type: none"> e.e. archifau digidol? e.e. compendiwm o'r gweithgareddau?
Manteisio ar y momentwm presennol ac ar ddiddordeb y cyhoedd yn y cofio er mwyn eu cynnal a'u hannog ar ôl y canmlwyddiant	<ul style="list-style-type: none"> A fydd y diddordeb yn parhau o'i ran ei hun? Beth allwn ni ei wneud i gynnal diddordeb y cyhoedd? <ul style="list-style-type: none"> e.e. mae prosiect 'Rethink Remembrance' y Lleng Brydeinig yn ymgorffori camau i gofio milwyr sy'n rhan o wrthdaro cyfoes i godi

	ymwybyddiaeth cenedlaethau iau, i sicrhau bod cofio'n berthnasol ac yn gyfredol ac, yn y pen draw, i annog pobl i gofio ar ôl i gyfnod canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben.
Parhau i raglennu gweithgareddau ar ôl 2018 a fydd yn codi ymwybyddiaeth o effaith y rhyfel a'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd	<ul style="list-style-type: none"> • Cael hyd i ffyrdd o hwyluso sgysiau parhaus am y Rhyfel Byd Cyntaf ar ôl 2018 • Herio'r rhagdybiaeth fod popeth yn dod i ben yn 2018 • Cael gafael ar gyllid • Cael hyd i gapasiti i barhau â'r gwaith ar ôl i'r swyddi sy'n cael eu hariannu ddod i ben yn 2018 • Sicrhau bod cyfleoedd i rwydweithio ac i weithio mewn partneriaeth yn cael eu gwarchod a'u cynnal
Cofnodi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwn i osod sylfaen ar gyfer gweithgareddau cofio yn y dyfodol e.e. yr Ail Ryfel Byd	Osgoi bwrw ymlaen ar unwaith i'r 'peth nesaf'
Cadw'r diddordeb yn fyw	<ul style="list-style-type: none"> • Amrywiol • Adnabyddadwy • Profiad personol • Cyfredol/parhaus
Lledaenu'r gwaith a wnaed	<ul style="list-style-type: none"> • Pwy? • Ble? • I ble mae'r ymchwil yn mynd? • Cyfathrebu
Estyn profiad Cymru/parhau i drafod trawstoriad o agweddau -Rôl merched -Rôl Lloyd George	<ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau ar gael? • Arian? • Model Cymru?
Hanes y môr	<ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb mewn cofio? • Pryd? • Efen gymdeithasol/gymunedol?

Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

- Cynllunio trylwyr ymlaen llaw
- Yr amser sydd ei angen i weithio gydag amryw o bartneriaid (12 bartneriaid)
- Strwythur fframwaith hyblyg

Monitro

- Ymateb uniongyrchol – gweithio'n dda e.e. Arddangosfa'r Pabi yng Nghaernarfon
- Ymateb dros gyfnod – gwerthuso ymhellach

Adborth

- Straeon/hanesion unigol e.e. Gallipoli
- Efen leol – yn hytrach na'r elfen genedlaethol bob tro

- Cadw gwreiddiau'r prosiect yn lleol o'r cychwyn cyntaf
- Helpu i ddeall yr wybodaeth o ran y niferoedd a gollwyd
- Colled Cymru fel cenedl
- Mwy cyfoethog a grymus i'r rheini â diddordeb
 - Cymru 1914
 - Cyw
 - Llyfr y Cofio – Arberth

Adborth sefydliadau

- Rôl merched – cysylltu ag ysgolion
- Ehangu
- Straeon sy'n berthnasol i'r Rhyfel Byd Cyntaf

Cymorth

- Mwy o aildrydar
- Cyfathrebu
- Cyfryngau cymdeithasol / rhoi'r gair ar led

Cyffredinol

- Angen edrych yn nes at adref – dim ond ar Ffrynt y Gorllewin e.e. Gallipoli
- Cyd-destun – effeithiau'r rhyfel
 - Cartref
 - Byw
 - Gofalu am y rhai a anafwyd
 - Yr angen i gydweithio
 - Manteisio ar wybodaeth leol
 - Sylwi
 - Deall pwysigrwydd

Monitro

- Gwneud gwaith pellach ar ôl monitro
- Ffurflen werthuso
- Dehongli ystadegau ar lafar
- Fersiwn ar bapur

Adborth gan y gynulleidfa (e.e. Yr Ysgwrn)

- Rôl merched yn lleol / tu allan i'r ardal
- Hedd Wyn
- Deialog gychwynnol â'r gynulleidfa
- Ymgynghori â'r grŵp peilot
- Gall diddordeb y gwirfoddolwyr arwain at brosiectau eraill

Cymorth

- Ychwanegu gwerth at yr adnoddau sydd ar gael eisoes (e.e. HWB Cyw)
- Cyfathrebu
- Pecyn adnoddau gwerthuso
- Rhannu'r wybodaeth a gafodd ei gwerthuso
 - Â phartneriaid

- Yn ehangach

Pum prif nod ac amcan

- Cadw'r diddordeb yn fyw – parhaus, profiad personol, nodi
 - Gwerth yr hyn a gyflawnwyd gennym
 - e.e. Ar ôl 2017 ar gyfer MW
 - Cynaliadwyedd
- Cofio rôl merched
 - Effaith y rhyfel ar eu cartrefi a'u cymunedau
 - Parhau i gael trawstoriad o agweddau diddorol
 - Ymchwil – Pwy? Ble?
 - Parhau â'r naratif – cyfathrebu, i ble mae'r ymchwil yn mynd?
- Ehangu profiad Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf
 - Adrodd yr hanes – a yw pobl yn gwybod amdano?
 - Cyllid
 - Model Cymru
- Cofio rôl Lloyd George
 - Arsylwi ar amser
 - Dewis agwedd ar ei fywyd
- Hanes y môr
 - Ehangu ar Flwyddyn y Môr
 - Diddordeb mewn cofio?
 - Elfennau ac agweddau eraill i'w cofio ar yr un pryd
- Addysg
 - Mwy o fewnbwn / cydweithio
 - Ysgolion cynradd
 - Mynediad, cludiant
 - Pwysau?
 - Angen addasu'r Cwricwlwm?
 - Amser yr ysgolion yn gyfyngedig
 - Anodd cysylltu

Y pum prif nod a'r anawsterau

Nodau	Anawsterau
Ehangu o'r Ffrynt Gorllewinol	Dewis naturiol
Gwaddol / Treftadaeth – angen ystyried hyn	Digon o amser?

nawr	Pan fydd prosiectau ar waith Cysylltu ag allbynnau digidol amrywiol Darparu pecyn technegol Profiad Cymru o'r Rhyfel
Dileu'r gair 'buddugoliaeth'	Barn pobl Sut i ymdrin â'r dôn
Naratif – bywyd yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf (e.e. dyddiadur bywyd gartref / ar y fferm; ansawdd bywyd; teithio; llythyron; gyda milwyr	Faint o ddeunydd sydd ar gael? Ansawdd y metadata Amser gweithio
Model ar gyfer prosiectau / rhaglenni - Strwythur fframwaith hyblyg - Dysgu o brofiad - Canolbwyntio ar y pwnc	- Hyblygrwydd - Blaenoriaethu - Cyllid - Amser staff - Sefydliadau/Llywodraeth - Diddordebau/chwaeth y gynulleidfa